Archwilio Cymru
Audit Wales

# Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
## Crynodeb Archwilio Blynyddol 2021



Dyma ein crynodeb archwilio ar gyfer Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy.

Mae'n dangos y gwaith a gwblhawyd ers y Crynodeb Archwilio Blynyddol diwethaf, a gyhoeddwyd ym mis Ionawr 2021. Mae ein crynodeb archwilio yn rhan o ddyletswyddau Archwilydd Cyffredinol Cymru.

Mae rhagor o wybodaeth am y dyletswyddau hyn ar gael ar ein gwefan.

# Ynglŷn â'r Cyngor

## Rhai o'r gwasanaethau y mae'r Cyngor yn eu darparu



**Ffeithiau allweddol**

Mae'r Cyngor yn cynnwys 59 o gynghorwyr sy'n cynrychioli'r pleidiau/grwpiau gwleidyddol canlynol:

- Ceidwadwyr Cymreig 15
- Grŵp Annibynnol Cyntaf Conwy 15
- Plaid Cymru 9
- Annibynnol 5
- Llafur Cymru 6
- Aelodau Annibynnol Cynghreiriol 4
- Democratiaid Rhyddfrydol Cymru 4
- Ddim yn aelod o unrhyw grŵp gwleidyddol yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Conwy 1

Gwariodd y Cyngor £228.5 miliwn ar ddarparu gwasanaethau[1] yn ystod 2020-21, sef y 15fed gwariant uchaf ymysg y 22 o gynghorau unedol yng Nghymru.

[1] Ystyr gwariant ar wasanaethau yw'r gost a godir ar y gronfa gyffredinol am y gwasanaethau o'r Dadansoddiad Cyllid Gwariant, namyn cost unrhyw wasanaethau Cyfrif Refeniw Tai, gan ychwanegu praeseptau, ardollau a llog ar ddyledion.

| Ffeithiau allweddol |
| --- |
| Ar 31 Mawrth 2021, roedd gan y Cyngor £25 miliwn mewn cronfeydd ariannol defnyddiadwy[2]. Mae hyn yn cyfateb i 10.9% o wariant blynyddol y Cyngor ar wasanaethau, yr 22ain ymysg y 22 o gynghorau unedol yng Nghymru (y Cyngor â'r ganran isaf o gronfeydd wrth gefn yng Nghymru)[3]. |
| Ystyrir bod pedair (6%) o 71 o ardaloedd Conwy ymysg y 10% mwyaf difreintiedig yng Nghymru; sef y 12fed uchaf ymysg y 22 o gynghorau unedol yng Nghymru[4]. |
| Rhagwelir y bydd cynnydd o 4.5% i boblogaeth Conwy rhwng 2020 a 2040, gan gynyddu o 117,691 i 122,990, gan gynnwys gostyngiad o 7.6% i nifer y plant, gostyngiad o 5.8% i nifer y boblogaeth sydd o oedran gweithio a chynnydd o 32.1% i nifer y bobl sy'n 65 oed neu'n hŷn[5]. |

# Dyletswyddau'r Archwilydd Cyffredinol

## Gwnaethom gwblhau gwaith yn ystod 2020-21 er mwyn cyflawni'r dyletswyddau canlynol

- **Gwelliant parhaus**

  Bu'n rhaid i'r Cyngor roi trefniadau ar waith er mwyn gwneud gwelliannau parhaus, gan gynnwys cynlluniau ac adroddiadau cysylltiedig, a bu'n rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol asesu hefyd p'un a fodlonodd y Cyngor y gofynion hyn yn ystod 2020-21.
- **Archwilio Cyfrifon**

  Bob blwyddyn, mae'r Archwilydd Cyffredinol yn archwilio datganiadau ariannol y Cyngor i sicrhau bod arian cyhoeddus yn cael ei gyfrifyddu'n briodol.
- **Gwerth am arian**

  Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn archwilio a yw'r Cyngor wedi rhoi trefniadau ar waith i gael gwerth am arian am yr adnoddau y mae'n eu defnyddio, ac mae'n rhaid iddo fod yn fodlon bod hyn wedi ei wneud.
- **Yr egwyddor datblygu cynaliadwy**

  Mae angen i gyrff cyhoeddus gydymffurfio â'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth bennu eu hamcanion llesiant a chymryd camau i'w cyflawni. Mae'n rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol asesu i ba raddau y maent yn gwneud hyn.

[2] Ystyr cronfeydd ariannol defnyddiadwy yw cronfeydd wrth gefn y gellir eu defnyddio ar gyfer costau refeniw pan na ddiogelir y diben gan y gyfraith. Hwn yw cyfanswm y gronfa gyffredinol, y cronfeydd wrth gefn wedi'u clustnodi, a balansau yr ysgolion. Nid yw'n cynnwys cronfeydd wrth gefn y Cyfrif Refeniw Tai, derbyniadau cyfalaf na grantiau cyfalaf nas cymhwyswyd.

[3] Ffynhonnell: Datganiad Cyfrifon 2020-21

[4] Diffinnir ardal yn y cyd-destun hwn fel 'Ardal Cynnyrch Ehangach Haen Is'. Ffynhonnell: Stats Cymru

[5] Ffynhonnell: Stats Cymru

Rydym yn parhau i gydnabod y pwysau aruthrol ar wasanaethau cyhoeddus ac i weithio mewn ffordd sy'n ceisio lleihau'r effaith ar ymateb cyrff cyhoeddus i COVID-19, gan barhau i gyflawni ein dyletswyddau statudol.

**Er mwyn cyflawni dyletswyddau'r Archwilydd Cyffredinol rydym yn cwblhau prosiectau penodol, ond rydym hefyd yn dibynnu ar waith archwilio arall, a gwaith rheoleiddwyr megis Arolygiaeth Gofal Cymru ac Estyn (yr arolygiaeth addysg). Rydym yn ystyried canfyddiadau ein gwaith archwilio wrth asesu a yw'r Cyngor wedi rhoi trefniadau ar waith i sicrhau gwerth am arian. Crynhoir ein canfyddiadau a'n casgliadau isod.**

# Yr hyn a ganfuwyd gennym

## Archwiliad o Gyfrifon 2020-21 Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

Rydym yn archwilio datganiadau ariannol y Cyngor bob blwyddyn.

### Ar gyfer 2020-21:

- rhoddodd yr Archwilydd Cyffredinol farn ddiamod gwir a theg ar ddatganiadau ariannol y Cyngor ar 18 Tachwedd 2021, 12 diwrnod cyn y dyddiad cau statudol diwygiedig.
- paratowyd Datganiad Llywodraethu Blynyddol ac Adroddiad Naratif y Cyngor yn unol â Chod CIPFA a chanllawiau perthnasol. Roeddent hefyd yn gyson â'r datganiadau ariannol a baratowyd gan y Cyngor ac â'n gwybodaeth am y Cyngor.
- roedd ansawdd y datganiadau drafft a gyflwynwyd i'w harchwilio ar 6 Gorffennaf 2021 yn rhesymol ar y cyfan.
- gwnaed nifer o newidiadau i ddatganiadau ariannol y Cyngor a ddeilliodd o'n gwaith archwilio, ac fe'u hadroddwyd i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn ein Hadroddiad Archwilio Datganiadau Ariannol ym mis Tachwedd 2021.
- yn ogystal â bod yn gyfrifol am archwilio datganiadau ariannol y Cyngor, mae'r Archwilydd Cyffredinol hefyd yn gyfrifol am ardystio nifer o hawliadau grant a ffurflenni. Nid yw ein gwaith hyd yma wedi nodi unrhyw faterion o bwys.
- cyflwynodd yr Archwilydd Cyffredinol y dystysgrif yn cadarnhau bod yr archwiliad cyfrifon ar gyfer 2020-21 wedi ei gwblhau.

## Ein gwaith mewn ymateb i bandemig COVID-19

Mewn ymateb i bandemig COVID-19, gwnaethom newid dull a phwyslais ein gwaith archwilio perfformiad mewn llywodraeth leol a chyrff eraill. Isod, ceir crynodeb o rywfaint o'r gwaith yr ydym wedi'i wneud mewn ymateb i'r pandemig ar draws nifer o sectorau y mae llawer ohonynt yn berthnasol i lywodraeth leol.

Gwnaethom gynnal prosiect i gefnogi ymdrechion y sector cyhoeddus drwy rannu yr hyn a ddysgwyd yn ystod y pandemig. Nod y prosiect yw helpu i ysgogi myfyrdod a chyfnewid arferion. Ceir rhagor o wybodaeth ar ein gwefan.

Ym mis Mawrth 2021, gwnaethom gyhoeddi adroddiad cenedlaethol yn nodi trosolwg o'r cynnydd hyd yma o ran Profi, Olrhain, Diogelu yng Nghymru. Ym mis Rhagfyr 2020, gwnaethom gyhoeddi hefyd rai o arsylwadau yr Archwilydd Cyffredinol ar gaffael a chyflenwi cyfarpar diogelu personol yn ystod pandemig COVID-19, ac yna adroddiad yn dilyn hyn ym mis Ebrill 2021. Ym mis Mehefin 2021, gwnaethom gyhoeddi hefyd ein hadroddiad ar weithredu rhaglen frechu COVID-19 yng Nghymru.

## Gwelliant parhaus

Ardystiodd yr Archwilydd Cyffredinol fod y Cyngor wedi bodloni ei ddyletswyddau sy'n weddill o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 ar gyfer blwyddyn ariannol 2020-21, fel y'i cadwyd gan orchymyn a wnaed o dan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021. Fel rhan o'n harchwiliad o asesiadau perfformiad cynghorau ar gyfer blwyddyn ariannol 2020-21, nodwyd gostyngiad yn y cyfeiriad at wybodaeth gymharol o ran perfformiad er ein bod yn cydnabod bod y pandemig wedi arwain at atal rhywfaint o gasglu data cenedlaethol. Bydd y gallu i gymharu data a pherfformiad â sefydliadau eraill yn parhau i fod yn elfen bwysig o drefniadau i sicrhau gwerth am arian a bydd yn her i gynghorau ei hystyried yn enwedig wrth iddynt barhau i weithredu'r gofynion sy'n ymwneud â hunanasesu a nodir yn Neddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021.

## Cynaliadwyedd ariannol

Yn ystod 2020-21, gwnaethom archwilio cynaliadwyedd ariannol pob cyngor yng Nghymru. Yn ein hadroddiad lleol a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2021, daethom i'r casgliad gan gydnabod nad oedd defnyddio cronfeydd wrth gefn i fantoli ei gyllideb yn gynaliadwy, fod y Cyngor wedi cymryd camau i wella sefyllfa ei alldro cyllidebol a chynyddu cronfeydd wrth gefn defnyddiadwy.

Gwnaethom gyhoeddi dau adroddiad cryno cenedlaethol hefyd: yr adroddiad cyntaf ym mis Hydref 2020 a'r ail adroddiad ym mis Medi 2021.

## Cynllunio adferiad

Yn ystod 2020-21, gwnaethom adolygu'r trefniadau yr oedd pob cyngor yng Nghymru yn eu rhoi ar waith i gefnogi'r broses o gynllunio adferiad. Gwnaethom y gwaith hwn yn barhaus, gan ddarparu sylwadau amser real a pharhaus fel y bo'n briodol. Rydym o'r farn bod adferiad Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy o effaith y pandemig wedi elwa ar gyfathrebu, penderfyniadau a chynlluniau gofalus y Cyngor. Yn ystod cyfnod cyntaf y pandemig, cyfarwyddodd Tîm Arwain COVID-19 strategaeth leol a gwnaeth brif benderfyniadau. Uwchgyfeiriodd faterion hefyd i wneuthurwyr penderfyniadau rhanbarthol a chenedlaethol yn ôl yr angen. O ran gwneud

penderfyniadau gweithredol, defnyddiodd y Cyngor geisiadau penderfyniadau dirprwyedig gan yr Arweinydd. Mae'r trefniadau hyn wedi gweithio'n dda, a bu rhai llwyddiannau amlwg megis Ysbyty Enfys Llandudno.

Canfyddiadau allweddol eraill oedd bod niferoedd staff uwch wedi dychwelyd i swyddfeydd wrth i wasanaethau ailddechrau, ond oherwydd bod cyfraddau COVID-19 yn dal i fod yn uchel yn y Gogledd, mae llawer yn dal i weithio gartref. Wrth symud ymlaen, mae'r Cyngor yn bwriadu cael cymysgedd o weithio gartref, yn y swyddfa, ac ar y safle. Pan fo staff yn gweithio mewn swyddfeydd neu ar y safle, bydd y Cyngor yn dilyn canllawiau cyfredol Llywodraeth Cymru sy'n edrych ar ba addasiadau y mae angen eu gwneud a'r ffordd orau y gall staff weithio'n ddiogel ac yn ail-lunio sut mae staff yn gweithio.

Mae cyfathrebiadau Conwy â'r cyhoedd a thrigolion wedi bod yn gyson ac yn glir yn ystod y pandemig. Bu cyfathrebiadau'r Cyngor â thrigolion Conwy yn sydyn, er mwyn ymateb i argyfwng sy'n symud yn gyflym, ac mae ei ddulliau o gyfathrebu â'r staff wedi gwella yn ystod y pandemig a chyflwynwyd dulliau newydd o oresgyn y rhwystrau a nodwyd. Yn rhan o unrhyw adolygiad o'i strategaeth Gyfathrebu yn y dyfodol, mae angen i'r Cyngor sicrhau nad yw'n rhoi unrhyw grwpiau dan anfantais, drwy gynnal Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb drwy ymgysylltu â chymunedau.

Ceir rhai heriau o ran cynnal cyfarfodydd ffurfiol ar-lein yn unig ac, ar hyn o bryd, mae'n bosibl y bydd cyfleoedd i gael dirnadaeth o effeithiolrwydd y trefniadau hyn. Gallai rhagor o ymgysylltiad â'r cyhoedd i gasglu eu safbwyntiau am eu profiadau o arsylwi cyfarfodydd yn ystod y cyfnod hwn helpu hefyd o ran darparu sylwadau amserol ynghylch effeithiolrwydd y trefniadau hyn o'u safbwynt nhw.

Trwy Brosiect Workwise 2020, mae swyddogion ac Aelodau y Cyngor wrthi'n archwilio'n weithredol ffyrdd newydd o weithio ac o wella'r modd y darperir gwasanaethau, er enghraifft, mae'r Ffrwd Waith Gweledigaeth yn canolbwyntio ar ddatblygu canllawiau ar sut y bydd swyddfeydd Cyngor Conwy yn edrych a sut y byddant yn cael eu defnyddio yn y dyfodol. Mae'r gwaith hwn yn datblygu'n gyflym ac mae'r weledigaeth wedi datblygu'n dda, a bydd yn destun gwaith craffu a chymeradwyaeth yn y dyfodol drwy broses ddemocrataidd y Cyngor.

## Comisiynu Lleoliadau Cartrefi Gofal i Bobl Hŷn

Yn ystod 2020-21, gwnaethom archwilio a oedd cynghorau'r Gogledd a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (y Bwrdd Iechyd), a hwythau yn bartneriaid yn y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol, yn cydweithredu'n effeithiol wrth gomisiynu lleoliadau cartrefi gofal pobl hŷn yn strategol. Daethom i'r casgliad bod partneriaid yn gweithio'n unigol ac ar y cyd i ddarparu lleoliadau cartrefi gofal i ddefnyddwyr gwasanaethau sy'n agored i niwed. Gwneir hyn yn anos gan brosesau cenedlaethol cymhleth, sy'n arwain at bwyslais sylweddol ar gostau, sy'n achosi rhaniadau ymysg partneriaid a allai gael effaith andwyol ar ddefnyddwyr gwasanaethau a'u teuluoedd. Mae gan gryfhau atebolrwydd a datblygu strategaeth a chynllun darparu rhanbarthol y potensial i ysgogi newid cadarnhaol a gweithio mewn partneriaeth yn well, yn enwedig mewn cysylltiad â gofal cymhleth a mwy arbenigol.

I gloi'r gwaith hwn, gwnaethom gydnabod bod y cyfrifoldeb am yr heriau presennol yn y trefniadau comisiynu, yn gyffredin. Mae Llywodraeth Cymru yn pennu'r fframwaith cenedlaethol, sy'n gymhleth, ac mae partneriaid lleol yn gyfrifol am y ffordd y caiff polisïau a chanllawiau cenedlaethol eu gweithredu. Felly, rydym wedi adrodd yn lleol, i gynghorau a'r Bwrdd Iechyd, ac yn genedlaethol i Lywodraeth Cymru, gan argymell y camau y dylai'r cyrff hyn eu cymryd.

## Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru – Adolygiad Cynnydd Bargen Twf Gogledd Cymru

Yn ystod 2020-21, gwnaethom geisio ateb y cwestiwn: ‘Wrth gyflawni ei nodau cyffredinol, a yw Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru yn barod ac yn gallu addasu i gwrdd â’r amgylchiadau economaidd sy’n newid?’ Daethom i’r casgliad yn ein hadroddiad bod gan Fwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru drefniadau llywodraethu clir a sefydledig a gefnogir gan Swyddfa Rheoli Portffolio sy’n datblygu; gallai ffactorau allanol effeithio ar yr uchelgeisiau arfaethedig ac mae Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru yn addasu i ddarparu ar gyfer y rhain.

## Arolygiaethau eraill

Gwnaethom ystyried adroddiadau Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) ac Estyn hefyd yn ogystal ag unrhyw gamau dilynol a gymerwyd gan y Cyngor mewn ymateb iddynt. Cyhoeddodd AGC ac Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru eu hadolygiad Cenedlaethol ar y cyd o’r defnydd o Drefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid yng Nghymru. Gwnaethant nodi nifer o ganfyddiadau ac argymhellion allweddol yn eu hadroddiad. Ym mis Tachwedd 2021, cyhoeddodd AGC ‘Gadewch i mi ffynnu’ hefyd, sef adolygiad cenedlaethol o gymorth cynnar, gofal a chefnogaeth a’r trefniadau trosglwyddo i blant anabl yng Nghymru. Ym mis Tachwedd 2021, cyhoeddodd AGC ei lythyr archwilio sicrwydd ar gyfer y Cyngor, sy’n crynhoi canfyddiadau gwiriad sicrwydd AGC a gynhaliwyd ym mis Mehefin 2021. Diben yr archwiliad sicrwydd hwn yw adolygu pa mor dda y mae gwasanaethau cymdeithasol y Cyngor yn parhau i helpu a chefnogi oedolion a phlant, gan ganolbwyntio ar ddiogelwch a llesiant. Mae AGC wedi nodi cryfderau a meysydd blaenoriaeth i’w gwella, a bydd yn adolygu cynnydd y meysydd hyn drwy ei gyfarfodydd adolygu gwerthuso perfformiad â phenaethiaid y gwasanaeth a chyfarwyddwr y Cyngor. Mae AGC yn disgwyl i’r meysydd gwella y mae wedi eu nodi gael eu cynnwys yng nghynlluniau gwella y Cyngor. Ni chynhaliwyd unrhyw arolygiadau Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy eraill yn ystod y cyfnod hwn, ond mae Estyn wedi ailddechrau arolygu ysgolion lleol yng Nghonwy, ac mae gwasanaethau sydd wedi eu cofrestru ag AGC yng Nghonwy yn destun adolygiad rheolaidd.

## Astudiaethau llywodraeth leol

Yn ogystal â gwaith lleol ym mhob cyngor, rydym hefyd yn cynnal astudiaethau ar draws y sector llywodraeth leol bob blwyddyn i wneud argymhellion ar gyfer gwella gwerth am arian. Rydym wedi cyhoeddi’r adroddiadau canlynol ers yr adroddiad gwella blynyddol diwethaf:

## Gwasanaethau dewisol (Ebrill 2021)

Mae pwysau ariannol wedi arwain at gynghorau’n lleihau gwariant ac yn cyfyngu ar wasanaethau, ond mae’r pandemig wedi dangos bod gwasanaethau llywodraeth leol yn hanfodol i gadw pobl yn ddiogel ac yn iach. Gwnaethom ganolbwyntio ar sut mae cynghorau’n diffinio gwasanaethau, y systemau a’r prosesau a ddefnyddiwyd ganddynt i adolygu gwasanaethau a pha mor gadarn ydynt. Mae’r galw am rai gwasanaethau hanfodol yn parhau i gynyddu ac nid yw cynghorau’n hyderus y gallant barhau i ddarparu’r gwasanaethau hyn yn wyneb y galw cynyddol a chymhleth hwn. Mae angen i gynghorau achub y cyfle i adnewyddu,

ail-werthuso ac ailosod yr hyn y maent yn ei wneud a dysgu o'r pandemig er mwyn adeiladu dyfodol gwell. Cyhoeddwyd ein hadroddiad ym mis Ebrill 2021.

## Adfywio Canol Trefi yng Nghymru (Medi 2021)

Blaenoriaethodd awdurdodau lleol adfywio canol trefi rhwng 1950 a 1980, gan greu mannau manwerthu newydd a mwy. Fodd bynnag, mae dewisiadau polisi yn y gorffennol, disgwyliadau defnyddwyr sy'n newid a datblygiadau technolegol yn cael effaith andwyol bellach ar lawer o ganol trefi Cymru. Ac mae'r pandemig wedi creu heriau i lywodraeth leol a llywodraeth ganolog, ac mae un o bob saith siop ar strydoedd mawr Cymru yn wag bellach, er i Lywodraeth Cymru fuddsoddi ac ysgogi £892.6 miliwn yn ystod y saith mlynedd diwethaf. Nid oes gan awdurdodau lleol y capasiti i ymateb i'r sefyllfa hon ac nid ydynt bob amser yn defnyddio'r pwerau sydd ganddynt i helpu i adfywio trefi. Er mwyn cyflawni'r canlyniadau lleol gorau, mae angen cysoni ac integreiddio polisïau a'r broses o gydweithio, gan flaenoriaethu adnoddau ar gyfer canol trefi. Cyhoeddwyd ein hadroddiad ym mis Medi 2021.

## Gwaith a gynlluniwyd ar gyfer 2021-22

Buom hefyd yn edrych ar y cyfleoedd a'r heriau allweddol sy'n wynebu'r Cyngor. Gallai'r rhain effeithio ar allu'r Cyngor i fodloni ei rwymedigaethau cyfreithiol mewn cysylltiad â'r egwyddor datblygu cynaliadwy a'r defnydd o'i adnoddau.

Pandemig COVID-19 sy'n parhau i fod y risg a'r mater mwyaf sy'n wynebu cynghorau a'r sector cyhoeddus ehangach yn ystod 2021-22. Rydym wedi llunio ein gwaith i ddarparu sicrwydd a her mewn ffordd sy'n helpu i gefnogi'r Cyngor drwy'r cyfnod hwn. Mae ein gwaith arfaethedig ar gyfer 2021-22 yn cynnwys:

- Asesu sicrwydd a risg, gan gynnwys pwyslais ar y canlynol:
  - Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021
  - Cynllunio adferiad
  - Cynlluniau i leihau carbon
  - Trefniadau hunanasesu
  - Y sefyllfa ariannol
- Llamu Ymlaen – wrth i'r byd symud ymlaen, gan ddysgu o'r pandemig, mae'r adolygiad hwn yn edrych ar ba mor effeithiol y mae cynghorau wrth gryfhau eu gallu i drawsnewid, addasu a chynnal y broses o ddarparu gwasanaethau, gan gynnwys y rhai a ddarperir mewn partneriaeth â rhanddeiliaid allweddol a chymunedau.
- Archwiliad adrodd am welliant.
- Adolygiad i ystyried a yw'r trydydd sector yn gweithio'n effeithiol yng Nghonwy.
- Adolygiad i ystyried a yw ymgysylltu â'r gymuned yn gweithio'n effeithiol yng Nghonwy.

Mae’r Archwilydd Cyffredinol yn annibynnol ar y llywodraeth, ac fe’i penodir gan Ei Mawrhydi y Frenhines. Mae’r Archwilydd Cyffredinol yn ymgymryd â’i waith gan ddefnyddio staff ac adnoddau eraill a ddarperir gan Swyddfa Archwilio Cymru, sy’n fwrdd statudol a sefydlwyd at y diben hwnnw ac i fonitro a chynghori’r Archwilydd Cyffredinol. Mae Swyddfa Archwilio Cymru yn atebol i’r Senedd.

Mae’r Archwilydd Cyffredinol yn archwilio cyrff llywodraeth leol yng Nghymru, gan gynnwys awdurdodau unedol, yr heddlu, awdurdodau tân ac achub, parciau cenedlaethol a chynghorau cymuned. Mae hefyd yn cynnal astudiaethau gwerth am arian llywodraeth leol, yn asesu cydymffurfedd â gweddill gofynion Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 a gallai gynnal arolygiadau arbennig o dan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021.

Y tu hwnt i lywodraeth leol, yr Archwilydd Cyffredinol yw archwilydd allanol Llywodraeth Cymru a’r cyrff cyhoeddus a noddir ganddi, a chyrff cyhoeddus cysylltiedig, Comisiwn y Senedd, a chyrff y Gwasanaeth Iechyd Gwladol yng Nghymru.

Archwilio Cymru yw’r enw cyfunol anstatudol ar gyfer Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru, sy’n endidau cyfreithiol ar wahân â’u swyddogaethau cyfreithiol eu hunain, fel y disgrifir uchod. Nid yw Archwilio Cymru yn endid cyfreithiol.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English. Corresponding in Welsh will not lead to delay.

Mae’r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.